# CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

## RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2026-2027

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei wneud o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Rheolau sy'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

### 1. Cyflog Sylfaenol

1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel a benderfynir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

1.3 Lle mae cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i gael y Cyflog Sylfaenol ar sail pro-rata.

1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

### 2. Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

2.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael Uwch Gyflog fel a nodir yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau’r Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel a bennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Ddinesig sy’n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni all Aelod o'r Awdurdod gael Uwch Gyflog a Chyflog Ddinesig.

2.5 Mae pob Uwch Gyflog a Chyflog Ddinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

2.6 Ni chaiff Uwch Gyflog ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr Awdurdod, ac eithrio i gynnwys deiliad swydd Uwch Gyflog dros dro sy’n cyflenwi ar gyfer absenoldeb teuluol y deiliad swydd a benodwyd.

2.7 **Ni all** aelod o'r Awdurdod sy’n derbyn Uwch Gyflog gael cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y mae ef/hi wedi cael ei enwebu iddynt.

2.8 Lle mae tymor Aelod sy’n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog Ddinesig yn dechrau neu'n gorffen ar adeg heblaw am ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i Gyflog ar sail pro-rata.

### 3. Penderfyniad i Ildio Hawl am Lwfans

3.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr Awdurdod, yn bersonol ddewis ildio unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

**4. Atal Aelod Dros Dro**

4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal dros dro, yn llwyr neu'n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, bydd rhan y Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).

4.2 Pan fydd Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal dros dro, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog i'r Aelod drwy gydol y cyfnod y caiff yr Aelod ei atal (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud ag elfen cyfrifoldeb penodol y taliad yn unig, gall yr Aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

**5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

5.1 Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:

(a) wedi'i atal/hatal neu ei atal/hatal dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
(b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu
(c) mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei had-dalu.

**6. Taliadau**

6.1 Bydd taliadau'r holl lwfansau yn cael eu gwneud gan y *Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol trwy drosglwyddiad Credyd Banc* mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod ar y 15fed o bob mis.

6.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei had-dalu.

6.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r dreth briodol a didyniadau Yswiriant Gwladol.

**7. Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol**

7.1 Bydd cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol yn cael ei dalu i Aelod neu Aelod Cyfetholedig sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion dibynnol, neu ofynion gofal personol, ar yr amod bod yr Aelod yn ysgwyddo costau yn sgil darparu'r cyfryw ofal wrth ymgymryd â dyletswyddau 'cymeradwy' y Cyngor.

7.2 Mae cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol yn gymwys yn achos dibynnydd dan 16 oed, neu blentyn neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r Aelod fel rhan o'r teulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth y gall Aelod neu Aelod Cyfetholedig ddangos bod arnynt angen gofal. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd gall yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.

7.3 Gall Aelodau cymwys hawlio cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol ar gyfer costau gwirioneddol gyda derbynneb fel y nodir yn **Atodlen 1**. Dylid cyflwyno pob hawliad am y cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd gan nodi amseroedd, dyddiadau a'r rhesymau dros hawlio. Rhaid darparu derbynebau ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

## 8. Absenoldeb Teuluol

8.1 Mae hawl gan Aelodau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyfnod o absenoldeb teuluol, lle os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir y mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr Awdurdod.

8.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol.

8.3 Os bydd deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol bydd yn gallu parhau i dderbyn ei uwch gyflog drwy gydol yr absenoldeb.

8.4 Os bydd yr Awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol penodi eilydd i ddirprwyo dros absenoldeb teuluol deiliad uwch gyflog bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i dderbyn uwch gyflog hefyd os yw'r Awdurdod yn penderfynu felly.

8.5 Os bydd y taliad i'r eilydd a benodir yn achosi i'r Awdurdod ragori ar yr uchafswm o uwch gyflogau a bennwyd ar ei gyfer, bydd caniatâd yn cael ei roi i ychwanegu at yr uchafswm hwnnw ar gyfer y cyfnod y penodir yr eilydd.

## 9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig

9.1 Telir ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) i Aelodau Cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.

9.2 Bydd nifer y diwrnodau mewn unrhyw flwyddyn y caniateir talu aelodau cyfetholedig yn adlewyrchu rhaglen waith y pwyllgor perthnasol.

9.3 Bydd taliadau yn cymryd i ystyriaeth amser yn teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

9.4 Mae'r Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd yn cael ei ddynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu'r amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn.

9.5 Gall y Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd benderfynu o flaen llaw a yw cyfarfod yn cael ei raglennu ar gyfer diwrnod llawn a bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben cyn bod pedair awr wedi mynd heibio.

9.6 Diffinnir cyfradd awrol fel 60 munud a diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at 4 awr.

9.7 Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel un dros 4 awr.

9.8 Mae'r ffi diwrnod, awrol, a hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y'u pennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cael eu nodi yn **Atodlen 1**.

9.9 Mae'r ffi diwrnod, awrol, a hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio, fel y'u pennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, yn cael eu nodi yn **Atodlen 1**.

## 10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

10.1 **Egwyddorion Cyffredinol**

10.2 Caiff Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y'u nodir yn **Atodlen 2**. Lle bo Aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod disgwylir iddynt deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf costeffeithiol. Wrth asesu pa mor gosteffeithiol ydyw trefniadau teithio, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r amser teithio. Gall hawliad Aelod nad yw'n teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf costeffeithiol gael ei leihau gan y swm priodol.

10.3 Lle y bo'n bosibl dylai Aelodau rannu trafnidiaeth.

10.4 Dylai'r pellter a hawlir am filltiroedd fod am y daith fyrraf resymol ar y ffordd o'r man ymadael at y pwynt lle mae'r ddyletswydd yn cael ei chyflawni, ac yn yr un modd o'r man lle mae'r ddyletswydd yn cael ei chyflawni i'r man dychwelyd.

10.5 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

10.6 Pan fydd Aelod yn cael ei atal/hatal yn llwyr neu'n rhannol o'i gyfrifoldebau / chyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo / iddi

mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal/hatal gael eu dal yn ôl gan yr Awdurdod.

**11. Teithio Mewn Cerbyd Personol**

11.1 Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi penderfynu mai'r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy fydd y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal yn ogystal â thâl ychwanegol am unrhyw deithwyr eraill.

11.2 Mae'r cyfraddau y filltir ar gyfer cerbydau preifat fel a bennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.

11.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio ei gerbyd/cherbyd preifat at ddibenion dyletswyddau cymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

**12. Teithio ar Drafnidiaeth Gyhoeddus**

12.1 **Taith Trên/Bws**

Oni bai bod caniatâd arbennig wedi'i rhoi fel arall, bydd pob tocyn a brynir yn docyn ail-ddosbarth. Caniateir i'r Aelodau deithio mewn cerbyd trên dosbarth cyntaf pan fydd gofynion y gwaith yn cyfiawnhau'r cyfryw wariant (h.y. bod angen gweithio ar y trên cyn mynd i gyfarfod ar yr un diwrnod). Darperir tocynnau dosbarth cyntaf, os ydynt ar gael ac os gellir dangos y byddai'r tocynnau hynny'n rhatach i'r Cyngor na thocynnau ail ddosbarth safonol.

Bydd Gwasanaethau Democrataidd yn prynu tocynnau bws a rheilffyrdd angenrheidiol i Aelodau cyn y teithiau. Os bydd angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, bydd y taliad yn cael ei ad-dalu ar ôl cyflwyno'r tocyn a ddefnyddiwyd a/neu dderbynneb.

12.2 **Costau Tacsi**

Bydd costau tacsi ond yn cael eu had-dalu lle mae eu defnydd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer achosion brys, lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu os oes gan Aelod angen personol penodol. Bydd ad-daliad yn cael ei roi ar sail cyflwyno derbynneb yn unig.

12.3 **Costau Teithio Awyr**

Caniateir teithio mewn awyren os mai dyma'r dull mwyaf costeffeithiol o deithio. Mae'n ofynnol cael caniatâd y Prif Weithredwr neu ei gynrychiolydd a bydd tocynnau yn cael eu prynu gan Gwasanaethau Democrataidd.

12.4 **Teithio Dramor**

Bydd teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod yn cael ei ganiatáu gydag awdurdodiad caniatâd y Prif Weithredwr neu ei gynrychiolydd yn unig. Bydd Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu teithio a llety.

12.5 **Costau Teithio Eraill**

Bydd hawl gan Aelodau i gael ad-daliad ffioedd tollau, ffioedd parcio, garejis dros nos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithio angenrheidiol. Bydd ad-daliad yn cael ei roi ar sail cyflwyno derbynneb yn unig.

**13. Llety Dros Nos**

13.1 Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os yw'r lleoliad ar bellter o'r fath y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan y Prif Weithredwr neu ei gynrychiolydd.

13.2 Bydd llety dros nos yn cael ei archebu gan Gwasanaethau Democrataidd. Lle bynnag y bo modd, bydd y llety dros nos yn cael ei rhagdalu neu ei anfonebu.

13.3 Bydd llety dros nos a archebwyd yn uniongyrchol gan Aelod yn cael ei ganiatáu mewn achos o argyfwng yn unig. Bydd ad-daliad yn cael ei roi ar sail cyflwyno derbynneb yn unig a bydd ar lefel yr ystyrir ei bod yn rhesymol ac nad yw'n rhagori ar y cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

**14. Lwfans Cynhaliaeth**

14.1 Mae'r gyfradd gynhaliaeth ddyddiol i gwrdd â chostau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan nad yw'n cael ei ddarparu fel rhan o lety dros nos) yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd sy'n berthnasol, ar yr amod bod cais o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynneb/derbynebau.

14. 2 Nid oes darpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Sir.

**15. Ceisiadau a Thaliadau**

15.1 Rhaid i hawliad am lwfansau teithio a chynhaliaeth gael ei wneud yn ysgrifenedig erbyn y 1af o bob mis (neu y diwrnod gwaith olaf of yn cwympo ar ddydd Sadwrn, Sul neu Gŵyl y Banc)a rhaid cyflwyno'r derbynebau perthnasol gyda'r hawliad.

15.2 Bydd lwfansau yn cael eu talu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol trwy drosglwyddiad Credyd Banc.

**16. Pensiynau**

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**17. Cefnogi gwaith Aelodau'r Awdurdod**

17.1 Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn disgwyl i Aelodau gael digon o gymorth i ymgymryd â'u dyletswyddau a bod y cymorth a ddarperir yn ystyried anghenion penodol Aelodau unigryw. Mae'n ofynnol i Bwyllgor Gwasanaethau

Democrataidd yr Awdurdod adolygu lefel y cymorth a ddarperir i Aelodau a dylai gyflwyno cynigion ar gyfer cymorth rhesymol i'r Cyngor llawn.

17.2 Dylid rhoi cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i Aelodau etholedig ac Aelodau Cyfetholedig i roi iddynt fynediad electronig at wybodaeth briodol.

17.3 Dylid rhoi cymorth o'r fath heb unrhyw gost i unrhyw Aelod. Ni ddylid didynnu o dâl Aelodau fel cyfraniad at gost cymorth y mae'r Awdurdod wedi penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn i Aelodau weithredu'n effeithiol a neu'n effeithlon.

## 18. Cydymffurfiaeth

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru mewn perthynas â monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fel a nodir yn **Atodlen 4**.

**Nodyn:**
**Atgoffir Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig bod hawliadau am dreuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.**

*Rhaid i'r derbyniadau a ddarperir fod yn ddogfennau ffurfiol, sy'n dangos enw'r busnes, dyddiad a natur y cyflenwad. Nid yw derbynebau rôl till sylfaenol nad ydynt yn fanwl yn dderbyniol.*

*Er mwyn gallu rheoli cyllideb yr Awdurdod mewn modd trefnus, mae'n arfer da i gyflwyno hawliadau mewn modd amserol, h.y. heb fod yn hwy na 3 mis oed fesul hawliad.*

**ATODLEN 1**

**RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2026-27**

| AELODAU SYDD Â’R HAWL I GYFLOG SYLFAENOL | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL |
|---|---|
| Yr Aelodau etholedig canlynol o’r Awdurdod a enwir: | £21,044 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sue Allen | 23 | Shelly Godfrey-Coles | 45 | Hugh Shepardsor |
| 2 | Michelle Beer | 24 | Deian Harries | 46 | Edward Skinner |
| 3 | Liam Bowen | 25 | Jason Hart | 47 | Russell Sparks |
| 4 | Kim Brom | 26 | Ken Howell | 48 | Dai Thomas |
| 5 | Peter Cooper | 27 | Peter Hughes Griffiths | 49 | Gareth Thomas |
| 6 | Michael Cranham | 28 | Shone Hughes | 50 | Michael Thomas |
| 7 | Suzy Curry | 29 | John James | 51 | Fiona Walters |
| 8 | Andrew Davies | 30 | Meinir James | 52 | Philip Warlow |
| 9 | Anthony Davies | 31 | Rob James | 53 | Elwyn Williams |
| 10 | Arwel Davies | 32 | Dot Jones | 54 | Janet Williams |
| 11 | Bryan Davies | 33 | Hefin Jones | 55 | Steve Williams |
| 12 | Crish Davies | 34 | Jean Lewis | 56 | Lle Gwag/Vacancy |
| 13 | Handel Davies | 35 | Neil Lewis | | |
| 14 | Karen Davies | 36 | Kevin Madge | | |
| 15 | Lewis Davies | 37 | Dai Nicholas | | |
| 16 | Llinos Mai Davies | 38 | Denise Owen | | |
| 17 | Sharen Davies | 39 | Martyn Palfreman | | |
| 18 | Terry Davies | 40 | Dorian Phillips | | |
| 19 | Michellle Donoghue | 41 | Emyr Rees | | |
| 20 | Alex Evans | 42 | Sean Rees | | |
| 21. | Colin Evans | 43 | Louvain Roberts | | |
| 22 | Nysia Evans | 44 | Jaqueline Seward | | |

| | HAWL I UWCH GYFLOGAU<br>(yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG |
|---|---|---|---|
| | RÔL | AELOD | |
| 1. | Arweinydd | Linda Evans | £71,025 |
| 2. | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth | Hazel Evans | £49,717 |
| 3. | Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cymunedau a’r Iaith Gymraeg | Carys Jones | £42,615 |
| 4. | Aelod Cabinet dros Addysg | Glynog Davies | £42,615 |
| 5. | Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu | Philip Hughes | £42,615 |
| 6. | Aelod Cabinet dros Dai | Emlyn Schiavone | £42,615 |
| 7. | Aelod Cabinet dros Adnoddau | Alun Lenny | £42,615 |
| 8. | Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd | Aled Vaughan Owen | £42,615 |
| 9. | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith | Edward Thomas | £42,615 |
| 10. | Aelod Cabinet dros Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion | Jane Tremlett | £42,615 |
| 11. | Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio | Tyssul Evans | £31,567 |
| 12. | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu | Mansel Charles | £31,567 |
| 13. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio | Rob Evans | £31,567 |
| 14. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a’r Gymraeg | Peter Hughes Griffiths | £31,567 |
| 15. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynhaliadwyedd a Newid Hinsawdd | Tina Higgins | £31,567 |
| 16. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol | Giles Morgan | £31,567 |
| 17. | Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. | Gareth John | £31,567 |
| 18. | Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid Fwyaf | Deryk Cundy | £31,567 |
| Gall uchafswm o 18 o uwch gyflogau gael ei dalu ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin ac nis ragorwyd ar hwn. | | | |

| HAWL I GYFLOGAU DINESIG | | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG DINESIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Arweinydd Dinesig (Maer / Cadeirydd)<br>Nid oes hawl talu uwch gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig, felly ni thelir y cyflog hwn. | Giles Morgan** | £31,567** |
| Dirprwy Arweinydd Dinesig (Dirprwy Faer / Is-gadeirydd) | Betsan Jones | £25,253 |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANS AELOD CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | Daphne Evans | £33.50 cyfradd fesul awr<br>£268 – 4 awr a mwy<br>£134 – hyd at 4 awr |
| Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Malcolm MacDonald | £33.50 cyfradd fesul awr<br>£268 – 4 awr a mwy<br>£134 – hyd at 4 awr |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol – Pwyllgor Safonau, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trosedd ac Anrhefn | Pwyllgor Safonau<br>• C. Davies<br>• F. Phillips<br>• D. Morgan<br>• Lle Gwag/Vacancy<br><br>Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg<br>• D. Elias<br>• A. Enoch<br>• Lle Gwag<br>• Lle Gwag<br>• M Hughes<br><br>Pwyllgor Llywodraethu & Archwilio<br>• J. James<br>• J. Walters<br>• Lle Gwag | £26.25 cyfradd fesul awr<br>£210 – 4 awr a mwy<br>£105 – hyd at 4 awr |
| Cynghorwyr Tref a Chymuned sydd yn eistedd ar Bwyllgorau Safonau Prif Cynghorau | J Gilasbey | £26.25 cyfradd fesul awr<br>£210 – 4 awr a mwy<br>£105 – hyd at 4 awr |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANS AELOD CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| RÔL | AELOD | |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol – aelodau arferol o’r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn cadeirio’r Pwyllgorau Safonau mewn Cynghorau Cymuned | Amh | £29.75 cyfradd fesul awr<br>£238 – 4 awr a mwy<br>£119 hyd at 4 awr |
| Aelodau Lleyg Cyffredin o PCG | Amh | £29.75 cyfradd fesul awr<br>£238 – 4 awr a mwy<br>£119 hyd at 4 awr |

| **Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol** | |
|---|---|
| Pob Aelod<br><br>(Er eglurhad, ni ellir talu costau gofal i rywun sy’n rhan o aelwyd aelod). | • Ffurfiol (wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) costau gofal i’w talu yn ôl y dystiolaeth<br>• Anffurfiol (heb gofrestru) costau gofal i’w talu hyd at y gyfradd uchaf cyfwerth â Chyflog Byw Go Iawn y DU adeg y costau |

| **Cymorth Aelodau – beth a ddarperir yn nhermau ffôn, y rhyngrwyd neu e-bost (gweler Penderfyniad 6)** | |
|---|---|
| Cymorth ffôn i Aelodau’r Cabinet | Mae pob aelod o’r Cabinet yn derbyn ffôn a roddwyd gan yr awdurdod ar gyfer galwadau, negeseuon testun a data. |
| Cymorth ffôn i Gadeiryddion Pwyllgorau | Gall pob Aelod wneud galwadau ar ei iPad |
| Cymorth ffôn i bob Aelod Arall | Gall pob Aelod wneud galwadau ar ei iPad/gliniadur. |
| Mynediad at e-bost i Aelodau Gweithredol | Rhoddir cyfeiriadau e-bost corfforaethol i bob aelod ynghyd â iPad a gliniadur sylfaenol |
| Mynediad at e-bost i Gadeiryddion Pwyllgorau | Rhoddir cyfeiriadau e-bost corfforaethol i bob aelod ynghyd â iPad a gliniadur |

| | |
|---|---|
| | sylfaenol |
| Mynediad at e-bost i bob Aelod arall | Rhoddir cyfeiriadau e-bost corfforaethol i bob aelod ynghyd â iPad a gliniadur sylfaenol |
| Cymorth Rhyngrwyd i Aelodau Cabinet | Rhoddir iPad a gliniadur sylfaenol sydd â mynediad i'r rhyngrwyd i bob aelod |
| Cymorth Rhyngrwyd i Gadeiryddion Pwyllgorau | Rhoddir iPad a gliniadur sylfaenol sydd â mynediad i'r rhyngrwyd i bob aelod |
| Cymorth Rhyngrwyd i bob Aelod arall | Rhoddir iPad a gliniadur sylfaenol sydd â mynediad i'r rhyngrwyd i bob aelod |
| Mae pob Cynghorydd yn derbyn Lwfans Cyfathrebu fel cyfraniad tuag at eu costau ffôn a band eang sy'n gysylltiedig â busnes y Cyngor. | £20 y mis |

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gweithredu amgylchedd cyfarfod di-bapur a darperir dyfais dabled i'r aelodau at y diben hwn. Bydd aelodau sydd ag angen am gopïau papur yn seiliedig ar dystiolaeth yn derbyn gliniadur yn unig ar gyfer mynediad e-bost a rhyngrwyd.

**Cymorth i Aelodau Cyfetholedig**

Mae pob aelod cyfetholedig yn cael dyfais dabled a chyfeiriad e-bost corfforaethol @sirgar.gov.uk i gyrchu eu negeseuon e-bost a gwaith papur y Pwyllgor.

## <u>ATODLEN 2</u>

**Dyletswyddau Cymeradwy**:

- bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor o'r fath corff;

- bod yn bresennol mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;

- bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod arall y mae ei gynnal wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gyd-bwyllgor o'r Awdurdod ac un neu ragor o Awdurdodau eraill;

- dyletswydd a ymgymerir at ddiben cyflawni swyddogaethau'r Gweithrediad, neu mewn cysylltiad â hynny;

- dyletswydd a ymgymerir yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod neu Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;

- dyletswydd a ymgymerir mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth o'r Awdurdod sy'n grymuso'r Awdurdod, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo, archwilio neu awdurdodi archwilio eiddo;

- bod yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Cabinet;

- y dyletswyddau a ganlyn sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor:

  a) *Mynychu cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn penodi neu'n enwebu cynrychiolwyr arno neu unrhyw bwyllgor o'r cyfryw gorff;*
  b) *Mynychu cyfarfod o unrhyw gymdeithas awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;*
  c) *Mynychu unrhyw gyfarfod arall yr awdurdodwyd ei gynnal gan yr Awdurdod neu bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gyd-bwyllgor o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill;*
  d) *Ymgymryd â dyletswydd er mwyn cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â hwy lle mae'r Awdurdod yn gweithredu trefniadau gweithredol o fewn ystyr Rhan II o Ddeddf;*
  e) *Ymgymryd â dyletswydd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Awdurdod sy'n rhoi'r pŵer i archwilio neu'n awdurdodi archwilio adeiladau;*
  f) *Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddiant neu ddigwyddiad yn ymwneud â datblygu a gymeradwywyd gan y Cabinet;*
     *(Bydd pob cais am gael bod yn bresennol mewn Cynadleddau / Seminarau / Cyrsiau Hyfforddi yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn dilyn cyflwyno adroddiad a baratoir gan y Prif Weithredwr a fydd yn cynnwys:*

*a) manylion y gynhadledd / seminar / cwrs hyfforddi;*
*b) sylwadau'r Cyfarwyddwr perthnasol ynghylch yr angen am fod yn bresennol;*
*c) cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â bod yn bresennol h.y. ffioedd cynhadledd / seminar / hyfforddiant, cludiant, cynhaliaeth a llety.*

*Os bydd mwyafrif Aelodau'r Cabinet o blaid y cais, mae gan yr Arweinydd awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo'r cais am gael bod yn bresennol.)*

g) *Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall o ddosbarth sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod, yr ymgymerwyd ag ef er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau, neu mewn cysylltiad â hwy;*

h) *Cynghorydd yn mynychu cyfarfod lle mae'r Prif Weithredwr neu ei gynrychiolydd hefyd yn bresennol ar safle neu mewn swyddfa llywodraeth leol yn ardal yr Awdurdod, sydd wedi'i alw ymlaen llaw ar gais y Prif Swyddog neu ei gynrychiolydd, mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Cyngor;*

i) *Ymweliadau Safle a elwir gan y Prif Weithredwr yn sgîl penderfyniad gan y Cyngor, y Cabinet neu un o bwyllgorau'r Cyngor;*

j) *Cyfarfodydd Cyd-bwyllgorau Cyswllt;*

k) *Lle bo Cynghorydd wedi'i awdurdodi yn ffurfiol yn unol â gweithdrefn yr Awdurdod o wneud penderfyniadau er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Cyngor ac mewn cysylltiad â hwy, i fynychu cynhadledd, mynd ar ymweliad, ymuno â dirprwyaeth neu i fynychu cwrs nad yw ar y rhestr a gymeradwywyd fel cynrychiolydd swyddogol y Cyngor, yna wrth benderfynu anfon y Cynghorydd mae'r ddyletswydd a gyflawnir yn awtomatig yn "ddyletswydd a gymeradwywyd";*

l) *Mynychu cyfarfodydd cyswllt o Lefarwyr yr Wrthblaid a elwir gan y Prif Weithredw yn unol â Chylch Gorchwyl Cabinet yr Wrthblaid y cytunwyd arno gan y Cyngor.*

m) *Cynghorydd yn mynychu cyfarfodydd o gyrff allanol a'r Cynghorydd wedi'i benodi neu wedi'i enwebu'n ffurfiol gan y Cyngor;*

n) *Cadeirydd y Cyngor, Arweinydd a Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet;*

o) *Mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau y mae'r Cynghorydd wedi'i benodi neu wedi'i enwebu'n ffurfiol gan y Cyngor i'w mynychu mewn rôl Hyrwyddwr neu Lysgennad;*

p) *Nid yw'r ffaith bod dyletswydd wedi'i chynnwys ar y rhestr o ddyletswyddau cymeradwy o reidrwydd yn golygu na ellir derbyn tâl presenoldeb oddi wrth gyrff eraill (ac eithrio yn achos yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd neu Aelod o'r Cabinet sy'n derbyn Cyflog Uwch), a gall Cynghorwyr sydd wedi'u henwebu ac sy'n gymwys o dan gynlluniau a weithredir gan y cyfryw gyrff hawlio yn unol ag unrhyw gynlluniau o'r fath.*
*(Ni ddylid hawlio lwfansau teithio a chynhaliaeth oddi wrth y cyrff allanol ac oddi wrth y Cyngor am yr un dyletswyddau).*

***Dyletswyddau Cymeradwy yr Aelodau o'r Cabinet***

*Mae'r dyletswyddau canlynol hefyd yn "ddyletswyddau cymeradwy" ar gyfer yr Arweinydd a'r Aelodau o'r Cabinet:*

*Mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor, y Cabinet, Pwyllgorau a Phaneli Ymgynghorol;*
*Mynychu cyfarfodydd o Aelodau'r Cabinet a elwir i wneud penderfyniadau gweithredol ac a elwir yn ffurfiol gan y Prif Weithredwr;*
*Gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymarfer dyletswyddau Aelod o'r Cabinet;*

*Aelodau o'r Cabinet yn mynychu unrhyw ddigwyddiad lleol, rhanbarthol neu genedlaethol os yw'r Arweinydd wedi hysbysu'r Prif Weithredwr ymlaen llaw ei fod ef/bod hi wedi eu henwebu i'w fynychu yn ei (l)le er mwyn cynrychioli'r Cyngor.*

***Agoriadau swyddogol, digwyddiadau lansio cyhoeddus adeiladau/gwasanaethau/ cyfleusterau newydd y Cyngor o fewn y Sir***

*Ni fydd mynychu digwyddiadau lansio cyhoeddus/agoriadau swyddogol adeiladau/ gwasanaethau/cyfleusterau newydd y Cyngor yn ddyletswydd gymeradwy oni dderbynnir gwahoddiad ffurfiol iddynt gan y Prif Weithredwr (neu ei gynrychiolydd);*
*Byddai presenoldeb yr Arweinydd a'r Aelodau perthnasol o'r Cabinet mewn digwyddiadau o'r fath yn rhan o'u dyletswyddau fel aelodau o Weithrediaeth y Cyngor.*
*Byddai presenoldeb Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn y cyfryw ddigwyddiadau yn rhan o'u dyletswyddau dinesig.*

## ATODLEN 3

**Costau Milltiroedd**

| | |
|---|---|
| Cerbydau modur preifat o bob maint<br>Hyd at 10,000 milltir<br>Dros 10,000 milltir | <br>45 ceiniog y filltir<br>25 ceiniog y filltir |
| Beiciau modur preifat<br>Beiciau pedal | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir |
| Tâl ychwanegol am deithwyr eraill | 05 ceiniog y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Hyd at uchafswm o £28 yw'r gyfradd gynhaliaeth ddyddiol ac mae'n cwmpasu cyfnod o 24 awr. Gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd, os yw'n berthnasol, ar yr amod bod derbynebau i gefnogi'r fath hawliad.

Ni chaniateir ad-daliad ar gyfer diodydd alcoholig.

**Llety dros nos**

£200 yw uchafswm y lwfansau ar gyfer Llundain, a £95 ar gyfer mannau eraill. Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau wrth ymgymryd â dyletswydd gymeradwy.

**<u>ATODLEN 4</u>**

**Cydymffurfiaeth**

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y Cyngor y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob Aelod ac Aelod Cyfetholedig o ran cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Er budd tryloywder, bydd hyn yn cynnwys taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer pob penodiad gwasanaethau cyhoeddus a ddelir gan Aelodau etholedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y Cyngor ddatganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swyddi uwch gyflog, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau disgwyliedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn flynyddol y Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau ddim hwyrach na 31 Gorffennaf y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn anfon copi o'r Rhestr i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ddim hwyrach na 31 Gorffennaf y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb Aelodau / Aelodau Cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, Cabinet a Phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae Aelodau / Aelodau Cyfetholedig yn cyflwyno hawliad am ad-daliad amdanynt.

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yr adroddiadau blynyddol a baratoir gan Aelodau.

- Pan fydd yr Awdurdod yn cytuno i dalu am eilydd ar gyfer cyfnod o absenoldeb teuluol, bydd yn rhoi gwybod i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad gyda'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad.

Noder - Mae Atodiad A i'r ddogfen hon (gweler y ddolen isod) yn cynnwys Proffiliau Swyddi a Manylebau Person ar gyfer Cynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig a deiliaid swyddi Cyngor Sir Caerfyrddin.

https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1231879/part-61-soa-appendix-a-job-profiles-may-2022-gac.pdf